# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 30 GORFFENNAF 2020 am 10.30 o'r gloch** | **THURSDAY, 30 JULY 2020 at 10.30 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | **VIRTUAL MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar :-

- 10 Rhagfyr 2019
- 30 Ionawr 2020 (Arbennig)

3 **ADOLYGIAD Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 7 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

4 **ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU 2019/20** (Tudalennau 19 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **TALIADAU I AELODAU - ADRODDIADAU PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** (Tudalennau 21 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2019/20** (Tudalennau 27 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Eric Wyn Jones, Vaughan Hughes, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Roberts, Nicola Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (MW)<br>Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol dan Hyfforddiant (CD)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. DATBLYGU AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan yr Hyfforddai Datblygu AD a'r Rheolwr Datblygu AD ar y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 25 Medi 2019.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD fod cynllun hyfforddi newydd wedi'i gyflwyno, yn dilyn mewnbwn gan yr Aelodau ar eu hanghenion dysgu a datblygu. Dywedodd fod sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal yn ddiweddar ar faterion Cynllunio, Diogelu, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Rheoli'r Trysorlys.

Nodwyd y bydd taflen yn cael ei harddangos yn lolfa’r Aelodau yn rhestru cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y chwarter sydd i ddod. Trefnir sesiynau datblygu pellach ar ôl gwyliau'r Nadolig, a fydd yn cynnwys Diogelwch Aelodau, fel y gofynnwyd yn ddiweddar. Bydd anghenion hyfforddi 2020/21 yn cael eu coladu o'r Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP) a gan Uwch Swyddogion ac Arweinwyr Grŵp. Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD mai dim ond nifer gyfyngedig o Aelodau sy'n llenwi ffurflenni gwerthuso cyrsiau yn electronig. Yn ddiweddar, anfonwyd Canllawiau ‘Sut i’ at Aelodau er mwyn rhoi arweiniad ar gofnodi presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi. Mae'r canllawiau hefyd ar gael ar MonItor. Pwysleisiwyd bod cymorth ar gael i unrhyw Aelod a allai fod angen cymorth a hyfforddiant mewn perthynas ag unrhyw faterion TGCh.

Mewn cyfarfod diweddar o Arweinwyr Grŵp, roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar gynnull digwyddiadau hyfforddi fel “sesiynau cyfnos”, fel y gallai'r rheini a chanddynt

ymrwymiadau gwaith eraill fynychu. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gyda'r nos yn ddiweddar ond dim ond dau Aelod a gadarnhaodd y byddent yn mynychu. Byddai angen monitro hyfforddiant pellach a gynigir fel "sesiynau cyfnos" er mwyn sicrhau cost-effeithiolrwydd a byddai angen ystyried y goblygiadau o ran adnoddau.

Gan gyfeirio at Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP), nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp gyflwyno ADP erbyn diwedd mis Chwefror 2020.

Yn codi o'r drafodaeth, mynegodd aelodau'r Pwyllgor bryder bod eu cyfeiriadau cartref yn cael eu harddangos ar wefan y Cyngor. Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Mesur Llywodraeth Cymru sydd newydd ei gyhoeddi yn cynnwys cymal yn nodi nad yw'n orfodol i gyfeiriadau cartref Aelodau gael eu cyhoeddi ar-lein.

Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu AD hefyd at wybodaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar gan Sarah Titcombe (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ynghylch diogelwch personol, a bydd y manylion yn cael eu cylchredeg i'r holl Aelodau Etholedig.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau.**
- **Bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn tynnu cyfeiriadau a rhifau ffôn aelodau oddi ar wefan y Cyngor, ac yn eu rhoi gwybodaeth gyswllt y Cyngor ar y wefan yn eu lle.**

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2020/21

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Drafft 2020/21 gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nodwyd bod yr adroddiad drafft yn destun ymgynghoriad tan 10 Rhagfyr 2019 ac y cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2020.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yn rhaid i'r Panel gynhyrchu Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y gall neu y mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod ar gael i'w Aelodau a'u Haelodau Cyfetholedig.

Mae'r Panel wedi penderfynu'r canlynol:

- Bydd y cyflog blynyddol sylfaenol ar gyfer Aelodau Etholedig yn codi £350 y flwyddyn i £14,218;
- Bydd nifer uchaf yr uwch gyflogau sy'n daladwy ar gyfer yr Awdurdod hwn yn parhau i fod yn 16, sy'n cynnwys cyflogau dinesig.
- Ni thelir unrhyw godiadau ychwanegol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2020.

- Ni chynigir codi'r uwch gyflogau ond bydd deiliaid y swyddi hyn yn derbyn y codiad o £350 yn y cyflog sylfaenol.
- Mae'r Panel yn parhau i fod o'r farn y dylid talu cyflogau dinesig o £22,918 (Band 3) i Benaethiaid Dinesig, a £17,918 (Band 5) i'r Dirprwy Benaethiaid Dinesig

**PENDERFYNWYD derbyn y penderfyniadau drafft o fewn yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2020/21 gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 am

**Y CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts, John Arwel Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Richard Griffiths |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Bu'r Cynghorydd Dafydd Roberts ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda.

**2. ADOLYGIAD O RANBARTHAU PLEIDLEISIO A LLEOLIADAU PLEIDLEISIO**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar adolygiad o ranbarthau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio at ddibenion etholiadau, yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Cynhaliwyd adolygiad yn etholaeth seneddol Ynys Môn rhwng 5 Mehefin 2019 a 20 Ionawr 2020 at ddibenion adnabod opsiynau amgen posibl. Fel rhan o'r broses adolygu, nid oedd meini prawf penodol wedi eu bodloni, a rhoddwyd ystyriaeth i arweiniad y Comisiwn Etholiadol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cadarnhau'r trefniadau fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;**
- **Argymell i'r Cyngor Sir, yn ei gyfarfod 10 Mawrth 2020, ei fod yn cadarnhau'r argymhelliad sydd yn yr Adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**

**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **30 Gorffennaf 2020** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried cynigion drafft y Comisiwn a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir.** |

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau cyfnodol o drefniadau etholiadol prif ardaloedd Cymru. Mae'r Comisiwn bellach yn gwahodd sylwadau rhanddeiliaid ar drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn. Y bwriad yw cyflwyno newidiadau erbyn etholiadau 2022. Ar 25 Medi 2019, fe dderbyniodd y Pwyllgor argymhellion cychwynnol a baratowyd fel rhan o'r adolygiad. Derbyniwyd y rhain gan y Cyngor ar 7 Hydref 2019 gan argymell model yn seiliedig ar 14 ward a 35 aelod

## 2.0 Datblygu cynigion cychwynnol

2.1 Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi paratoi cynigion a gofynnir am sylwadau erbyn y 14eg o Fedi 2020, gan gynnwys enwau wardiau. Ceir copi o'r adroddiad yn y linc isod:

https://cffdl.llyw.cymru/adolygiadau/06-20/cynigion-drafft-ynys-mon

2.2 Mae'r Comisiwn yn argymell Cyngor o 35 aelod a 14 ward. Nid yw'r Comisiwn yn argymell newidiadau i 6 ward etholiadol. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol arfaethedig o 1,461 etholwr fesul aelod. Mae pob un o'r argymellion a wnaed gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 wedi'u derbyn gan y Comisiwn fel rhan o'u cynigion – gosodir allan y manylion yn y crynodeb yn Atodiad 1.

2.3 Mae'r panel trawsbleidiol wedi cyfarfod er mwyn ystyried cynigion y Comisiwn ac wedi derbyn yr holl argymhellion. Hefyd, mae'r Arweinyddion Grŵp wedi cymeradwyo'r cynigion hyn.

## 3.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

3.1 ystyried sylwadau y Panel (Atodiad 1).
.
3.2 yn amodol ar unrhyw sylwadau pellach, argymell i'r Cyngor Sir bod y cynigion yn cael eu derbyn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**14 Gorffennaf 2020**

**Arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn – Cynigion drafft Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (Mehefin 2020)**

| **1 – Aethwy** | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Dim newid i'r trefniant presennol. | Dim newid. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |

| **2 – Bro Aberffraw** | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Dim newid i'r trefniant presennol. | Dim newid. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |

| **3 – Bro Rhosyr** | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Argymhellir y dylai cymuned Llangristiolus, sy'n ffinio â ward Cefni ( Llangefni) sydd ar hyn o bryd yn rhan o ward Canolbarth Môn symud o ward Bro Rhosyr er mwyn creu ward newydd efo ward Cefni. Mae yna gysylltiadau cludiant cyhoeddus gyda Llangefni a chysylltiadau cymunedol agos gyda'r dref. Hefyd, mae'r ardal yma'n rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Llangefni a chysylltiadau agos â chyfleusterau cymunedol. Byddai'r newid hwn o fewn | Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno'r ardaloedd fel y'u cynigiwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â ward etholiadol arfaethedig Braint sy'n creu ward etholiadol â 2,707 oetholwyr (3,040 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan **ddau gynghorydd**, yn arwain at lefel amrywiant sydd 7% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 3 – Bro Rhosyr | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Bro Rhosyr yn golygu ward **2 aelod** o 2,712 – 1 cynghorydd i 1,356.<br><br>Enw: newid enw Bro Rhosyr i **Braint** er mwyn adlewyrchu nodweddion daearyddol lleol. | Mae’r Comisiwn wedi rhoi’r enw unigol **Braint** i’r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig. Mae’r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | |

| 4 – Caergybi | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Creu ward newydd o **2 aelod** drwy gyfuno wardiau Parc a’r Mynydd a Porthyfelin. Nifer etholwyr- 2,515. 1 cynghorydd i 1,257.<br><br>Enw: **Parc a’r Mynydd.** | Mae’r Comisiwn yn cynnig bod wardiau Parc a’r Mynydd a Phorthyfelin yn Nhref Caergybi yn ffurfio ward etholiadol â 2,499 o etholwyr (2,771 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai’n cael ei chynrychioli gan **ddau gynghorydd**, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 14% islaw’r cyfartaledd sirol arfaethedig<br><br>Mae’r Comisiwn wedi rhoi’r enw unigol **Parc a’r Mynydd** i’r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig. Mae’r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | Mae’r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 4 – Caergybi | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Cyfuno'r wardiau canlynol er mwyn creu ward newydd efo **2 aelod** - y Dref, Morawelon a Ffordd Llundain. Nifer etholwyr – 2,799. 1 cynghorydd i 1,399.<br><br>Enw: **Tref Cybi.** | Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn cynnig bod wardiau Ffordd Llundain Road, Morawelon a'r Dref yn Nhref Caergybi yn ffurfio ward etholiadol â 2,751 o etholwyr (3,292 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan **ddau gynghorydd**, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 6% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig.<br><br>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Tref Cybi** i'r ward etholiadol arfaethedig.<br><br>**Ystyriodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw ac awgrymodd ddefnyddio 'Cybi', 'Tref Caergybi' neu 'Caergybi' fel enw'r ward arfaethedig. Cynghoront y gallai'r enw arfaethedig Tref Cybi roi'r argraff anghywir mai 'Cybi' yw enw'r dref, yn hytrach na Chaergybi. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig 'Cybi' fel enw'r ward etholiadol, gan fod hyn yn dilyn yr un patrwm â ward etholiadol arfaethedig 'Cefni'. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. Noda'r Comisiwn fod ward etholiadol bresennol Ynys Gybi yn defnyddio'r ffurf 'Cybi' hefyd, ac mae ward** | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |

| 4 – Caergybi | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| | **arfaethedig Cefni hefyd yn defnyddio'r un patrymau enwi. Mae'r Comisiwn yn fodlon ag argymhelliad y Cyngor, sef Tref Cybi.** | |

| 5 – Canolbarth Môn | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Creu ward newydd **2 aelod** - cymunedau Trewalchmai, Bryngwran a Llanfaelog (ar hyn o bryd yn rhan o ward Llifon). Nifer etholwyr- 2,558. 1 cynghorydd i 1,279. Mae'r ward newydd hon yn nalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern.<br><br>Enw: **Crigyll**. | Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyfuno'r ardaloedd fel y'u cynigiwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â ward etholiadol arfaethedig Crigyll sy'n creu ward etholiadol â 2,571 o etholwyr (2,807 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan **ddau gynghorydd**, yn arwain at lefel amrywiant sydd 12% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig.<br><br>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Crigyll** i'r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 5 – Canolbarth Môn | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Creu ward newydd **2 aelod** drwy gyfuno ward Cefni o gymuned Llangefni gyda chymuned Llangristiolus (yn Bro Rhosyr ar hyn o bryd), oherwydd cysylltiadau cymunedol agos a chyswllt cymunedol amlwg gyda Llangefni - ysgol uwchradd. Nifer etholwyr 2,398. 1 aelod i 1,199.<br><br>Enw: **Cefni**. | Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyfuno'r ardaloedd fel y'u cynigiwyd gan Gyngor Sir YnysMôn mewn perthynas â ward etholiadol arfaethedig Cefni sy'n creu ward etholiadol â 2,298 o etholwyr (2,413 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan **ddau gynghorydd**, yn arwain at lefel amrywiant sydd 21% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig.<br>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Cefni** i'r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |
| Ar sail data etholwyr 2019, byddai'r model yma'n creu ward **3 aelod** o 3,889 ar gyfer Canolbarth Môn. 1 cynghorydd i 1,296.<br><br>Enw: **Canolbarth Môn**. | Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn cynnig cyfuno'r ardaloedd fel y'u cynigiwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â ward etholiadol arfaethedig Canolbarth Môn sy'n creu ward etholiadol â 3,897 o etholwyr (4,259 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan **dri chynghorydd**, yn arwain at lefel amrywiant sydd 11% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |





Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 5 – Canolbarth Môn | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| | Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Canolbarth Môn** i'r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | |

| 6 – Llifon | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Creu ward newydd 2 aelod - cymunedau Trewalchmai, Bryngwran (ar hyn o bryd yng Nghanolbarth Môn) a Llanfaelog. Nifer etholwyr- 2,558. 1 cynghorydd i 1,279. Mae'r ward newydd hon yn nalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae cysylltiadau cymunedol rhwng y ward arfaethedig newydd hon a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Enw: **Crigyll.** | Gweler tabl 5 – Canolbarth Môn **(Crigyll).** | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |
| Creu ward **2 aelod** newydd o gymunedau Caergeiliog, Y Fali a Bodedern (ward Talybolion). Mae'r ward newydd yma o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern ac mae yma gysylltiadau cymunedol lleol, gan gynnwys gofal sylfaenol. Byddai hyn | Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyfuno'r ardaloedd fel y'u cynigiwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â ward etholiadol arfaethedig Bro'r Llynnoedd sy'n creu ward etholiadol â 3,594 o etholwyr (3,927 o etholwyr rhagamcanol) | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |





Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 6 – Llifon | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| yn creu etholaeth gyda 3,634 etholwyr. 1 cynghorydd i 1,817.<br><br>Enw – **Bro'r Llynnoedd**. | a fyddai, pe byddai'n cael eichynrychioli gan **ddau gynghorydd**, yn arwain at lefel amrywiant sydd 23% uwchlaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig.<br><br>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Bro'r Llynnoedd** i'r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | |

| 7 – Lligwy | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Dim newid i'r trefniant presennol. | Dim newid. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |

| 8 – Seiriol | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Dim newid i'r trefniant presennol. | Dim newid. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |





Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 9 – Talybolion | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Mae hon yn ardal ddaearyddol helaeth, gan gynnwys 7 o gynghorau cymuned. Argymhellir symud cymuned Bodedern o'r ward yma er mwyn creu ward newydd gyda chymunedau Y Fali a Llanfair-yn-neubwll (gweler y cynigion ar gyfer Llifon uchod). Mae'r ward newydd hon o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern ac mae yma cysylltiadau cymunedol lleol, gan gynnwys gofal sylfaenol.<br><br>Byddai hyn yn golygu etholaeth o 3,869 ar gyfer **Talybolion**, wedi'i gwasanaethu gan **3 Chynghorydd**. 1 cynghorydd i 1,289. | Mae'r Comisiwn, o ganlyniad, yn cynnig bod gweddill ward etholiadol Talybolion yn ffurfioward etholiadol â 3,834 o etholwyr (4,161 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n caelei chynrychioli gan **dri chynghorydd**, yn arwain at lefel gynrychiolaeth sydd 13% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig.<br><br>Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Talybolion** i'r ward etholiadol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |

| 10 – Twrcelyn | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Dim newid i'r trefniant presennol. | Dim newid. | Mae'r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| 11 – Ynys Gybi | | |
|---|---|---|
| **Argymhellion y Cyngor – Hydref 2019** | **Cynigion drafft y Comisiwn – Mehefin 2020** | **Sylwadau Panel traws-bleidiol y Cyngor - 30 Mehefin 2020** |
| Dim newid i’r trefniant presennol. | Dim newid. | Mae’r Panel yn cytuno gyda chynigion drafft y Comisiwn. |

**Enwau Wardiau Etholiadol.**
Mae’r Comisiwn wedi nodi y byddai’n croesawu safbwyntiau ar yr holl enwau arfaethedig (gan gynnwys y rhai sydd heb eu newid) a bydd unrhyw enwau amgen a awgrymir yn cael eu hystyried.




Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Pwyllgor:** | **30 Gorffennaf 2020** |
| **Teilt:** | **Adroddiadau Blynyddol Aelodau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I adrodd ar y sefyllfa bresennol ar adroddiadau 2019/20** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1.0 Cyflwyniad

Rwyf yn adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor ar baratoadau ar gyfer adroddiadau blynyddol gan Aelodau.

Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol( Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

Rwyf wedi adrodd i'r Arweinyddion Grŵp ar y trefniadau a'r sefyllfa o ran cwblhau adroddiadau- gofynnwyd i Aelodau gwblhau adroddiadau erbyn y 22 Mai i bwrpas cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2020. Ystyrir ei bod yn arfer dda i gwblhau adroddiadau er mwyn hybu atebolrwydd lleol a gwybodaeth gyhoeddus ar gyfrifoldebau a swyddogaethau. Ar hyn o bryd tra'n cwblhau'r adroddiad hwn, mae 8 adroddiad heb eu derbyn gan Aelodau. Mae modd gweld yr adroddiadau a gyhoeddwyd drwy glicio ar y linc yma: https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

## 2.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad ac annog aelodau i gwblhau adroddiadau blynyddol

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**15/07/20**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Cyfarfod: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad: | 30 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr adroddiad: | Taliadau i Aelodau – Adroddiadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| Adroddiad gan: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Rhoi gwybod i Aelodau am yr adroddiadau y mae'r Panel wedi'i gyhoeddi eleni |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig. Mae'r Panel hefyd yn cyhoeddi adroddiadau atodol ar faterion penodol pan cyfyd yr angen.  Mae'r adroddiad yma'n cyfeirio at ddau adroddiad a gyheoddwyd eleni.

## 2.0 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2020/21 (Chwefror 2020)

Mae'r Panel yn ymgynghori'n flynyddol ar eu cynigion drafft o ran taliadau i Aelodau.  Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar 10 Rhagfyr 2019 yn amlinellu cynigion drafft y Panel ar gyfer 2020/21.  Fe gyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol terfynol ym mis Chwefror 2020 heb unrhyw newidiadau pellach i'r cynigion drafft ac mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr, yn unol â'r gofynion.

## 3.0 Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Yr egwyddorion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal (Mai 2020)

Mae'r Panel wedi nodi'n gyson yn eu Hadroddiadau Blynyddol na ddylai costau gofal ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy atal unrhyw unigolion rhag dod yn aelod neu barhau i fod yn aelod o awdurdod na chyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r rôl.  Mae gan Aelodau, gan gynnwys Aelodau cyfetholedig, hawl i ad-daliad o'u costau gofal, hyd at yr uchafswm o £403 y mis, ar gyfer gweithgareddau y mae cynghorau unigol wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy a allai gynnwys amser priodol a rhesymol ar gyfer paratoi a theithio.

Yn ôl y Panel, ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal.  Fe gynhaliodd y Panel adolygiad o'r ddarpariaeth hon yn ddiweddar, gyda'r bwriad o annog mwy o aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu i fanteisio arni.  O ganlyniad, fe gyhoeddodd y Panel wedi cyhoeddi adroddiad atodol sy'n rhestru cyfres o egwyddorion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal.  Daeth yr egwyddorion hyn yn weithredol ar 1 Gorffennaf 2020.

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn gosod allan yr egwyddorion, sut mae'r Panel wedi nodi y gellir mynd ati i'w cwrdd a sut y bydd y Cyngor yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith.

## 4.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi:

bod y Cyngor wedi cyhoeddi ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr ar gyfer 2020/21, yn unol â'r gofynion;

yr egwyddorion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal a chadarnhau sut mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi'r egwyddorion ar waith, fel y nodir yn Atodiad 1.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** **22 Gorffennaf 2020**

Papur cefndirol: Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Yr egwyddorion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal (Mai 2020):
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/adroddiad-atodol-2020.pdf

**Atodiad 1**

| Egwyddorion y Panel mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal | | Sut mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi egwyddogion y Panel ar waith |
|---|---|---|
| **Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud** | **Sut mae mynd ati i wneud hyn** | |
| **1 - Nodi'n glir ar gyfer pwy mae'r ad-daliad costau gofal** | | |
| Aelodau sydd â phrif gyfrifoldeb am ofalu am blentyn neu oedolyn a/neu sydd ag anghenion cymorth personol lle nad yw'r rhain yn dod o dan ddarpariaeth statudol neu ddarpariaeth arall.<br><br>Ar gyfer cymorth personol. Gall hyn hefyd gynnwys cyflwr byrdymor neu gyflwr diweddar nad yw'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mynediad i waith, Taliadau Personol, yswiriant neu ddarpariaeth arall. | Cynnal adolygiad cyfrinachol o anghenion aelodau unigol yn flynyddol a phan fo amgylchiadau'n newid. | Bydd y Cyngor yn cynnwys adolygiadau cyfrinachol unigol yn y broses Adolygiadau Datblygiad Personol blynyddol. |
| **2 - Gwella ymwybyddiaeth** | | |
| Sicrhau bod darpar ymgeiswyr ymgeiswyr ac aelodau cyfredol yn gwybod bod Ad-daliadau Costau Gofal ar gael iddynt os yw eu hamgylchiadau cyfredol neu eu hamgylchiadau yn y dyfodol yn mynnu hynny. | Sicrhau bod gwybodaeth glir a hawdd ei chanfod ar gael ar y wefan ac mewn deunyddiau ynghylch etholiad a phenodi, mewn sesiynau cysgodi ac yn y sesiwn gynefino ac yn "llawlyfr" yr aelodau.<br><br>Atgoffa aelodau presennol drwy ebost a neu hyfforddiant.<br><br>Cyfeirio at daflenni Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â Thaliadau i Gynghorwyr. | Bydd y Cyngor yn:<br>• sicrhau bod y wybodaeth yn glir a hawdd ei chanfod a/neu ddeall ar ein gwefan, ar ddeunyddiau ynghylch ethol a phenodi, mewn unrhyw sesiynau cysgodi a chynefino ac yn "llawlyfr" yr aelodau.<br>• cymryd pob cyfle i atgoffa aelodau fel rhan o sesiynau hyfforddiant perthnasol.<br>• cynnwys y daflen Taliadau i Gynghorwyr ar wefan y Cyngor<br><br>Anfonwyd gwybodaeth i Aelodau ar 21 Gorffennaf 2020, gan gynnwys copi o'r ffurflen hawlio a sut i gael gwybodaeth neu gymorth pelllach. |

**Atodiad 1**

| **Egwyddorion y Panel mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal** | | **Sut mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi egwyddogion y Panel ar waith** |
|---|---|---|
| **Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud** | **Sut mae mynd ati i wneud hyn** | |
| **3 - Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol** | | |
| Sicrhau bod yr holl aelodau yn deall y rheswm dros Ad-dalu Costau Gofal ac yn cefnogi ac annog eraill i hawlio os oes angen. | Anogaeth o fewn ac ar draws yr holl bleidiau yn yr Awdurdodau Perthnasol i gefnogi aelodau i hawlio.<br><br>Cytuno i beidio hysbysebu neu gyhoeddi unrhyw benderfyniadau unigol i beidio â hawlio. | Fe drafodwyd Adroddiad Atodol y Panel mewn cyfarfod Arweinyddion Grwpiau ar 25 Mehefin 2020. |
| **4 - Amlinellu'r dyletswyddau a gymeradwywyd ar gyfer hawlio ad-daliad costau gofal** | | |
| **Cyfarfodydd** - ffurfiol (y rhai y mae'r Awdurdod yn eu galw) a'r rhai sy'n angenrheidiol i waith aelodau (i ymdrin â materion yr etholaeth ond nid materion y blaid) a datblygiad personol (hyfforddiant a gwerthusiadau.)<br><br>**Teithio** - mewn cysylltiad â mynd i gyfarfodydd.<br><br>**Paratoi** - mae darllen a gweinyddu yn rhan o rôl yr aelod. Ar gyfer rhai cyfarfodydd a phwyllgorau, mae angen gwneud llawer iawn o waith darllen, dadansoddi neu ddrafftio cyn neu ar ôl y cyfarfod.<br><br>Efallai y bydd gan ddeiliaid cyflogau uwch, sydd â dyletswyddau ychwanegol, gostau uwch. | Mater o ffaith yw dyletswyddau a gymeradwyir fel rheol. Mae dehongliad o Reoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'i nodi yn yr Adroddiad Blynyddol:<br><br>*"Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni"* | Roedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr ebost a gylchredwyd i Aelodau ar 21 Gorffennaf 2020. |

| Egwyddorion y Panel mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal | | Sut mae’r Cyngor yn bwriadu rhoi egwyddogion y Panel ar waith |
|---|---|---|
| **Y lleiafswm y dylai’r Awdurdodau ei wneud** | **Sut mae mynd ati i wneud hyn** | |
| **5 - Bod mor hyblyg â phosibl o ran y gwahanol fathau o gymorth y gellid hawlio ar eu cyfer** | | |
| • Ni ddylai Aelodau fod ar eu colled yn amodol ar y terfyn a bennwyd yn yr Adroddiad Blynyddol.<br>• Mae modelau ac anghenion gofal yn amrywio.<br>• Gall Aelodau ddefnyddio cyfuniad o sawl dewis gofal.<br>• Gall patrymau gofal amrywio dros y flwyddyn ddinesig ac academaidd.<br>• Nid yw pob gofal yn seiliedig ar gyfraddau fesul awr (neu ran o awr).<br>• Os oes rhaid talu am sesiwn gyfan, rhaid ad-dalu’r gost yn llawn hyd yn oed os mai ond rhan o sesiwn a oedd ei angen.<br>• Gall fod angen i Aelodau wneud y canlynol:<br>    • Archebu a thalu am sesiynau ymlaen llaw.<br>    • Ymrwymo i gontract bloc: wythnos, mis neu dymor.<br>    • Talu am sesiynau a gafodd eu canslo ar fyr rybudd.<br>• Os yw'r angen am ofal yn mynd ymlaen i ail sesiwn, dylid ad-dalu cost y ddwy sesiwn | | Roedd y wybodaeth hon wedi’i chynnwys yn yr ebost at Aelodau ar 21 Gorffennaf 2020.<br><br>Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw daliadau’n seiliedig ar yr egwyddorion yma. |
| **6 - Cynnal proses hawlio syml ac effeithiol** | | |
| 6.1 Dylai'r aelodau wybod sut i hawlio.<br>6.2 Dylai'r broses hawlio fod yn glir, yn gymesur ac yn archwiliadwy. | Sicrhau bod aelodau yn deall sut i hawlio a’i bod yn hawdd gwneud hynny<br><br>Hyblygrwydd i dderbyn anfonebau di-bapur, ffurflen ar-lein, yr un ffurflen neu ffurflen debyg ar gyfer hawlio costau teithio | Roedd y wybodaeth hon wedi’i chynnwys yn y neges at Aelodau ar 21 Gorffennaf 2020. |

| **Egwyddorion y Panel mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal** | | **Sut mae’r Cyngor yn bwriadu rhoi egwyddogion y Panel ar waith** |
|---|---|---|
| **Y lleiafswm y dylai’r Awdurdodau ei wneud** | **Sut mae mynd ati i wneud hyn** | |
| | | |
| **7 - Cydymffurfio â rheolau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cyhoeddi** | | |
| 7.1 Mae Fframwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi:<br><br>“*Mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, mae’r Panel wedi penderfynu mai dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai’r awdurdodau perthnasol ei gyhoeddi. Mater i bob awdurdod yw penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu."* | | Rhaid i’r Cyngor gyhoeddi Datganiad o Daliadau a Wnaed i Aelodau erbyn diwedd Medi bob blwyddyn. Bydd gwybodaeth am unrhyw ad-daliadau costau gofal yn cael ei gyhoeddi yn y Datganiadau hyn yn unol â phenderfyniad y Panel. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **30 Gorffennaf, 2020** |
| **Teitl yr Adroddiad:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd: 2019/20** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2019/20** |
| **Awdur:** | **J Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. **Argymhellion**
   **Gofynnir i'r Pwyllgor:**
   **A1** Dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20.
   **A2** Argymell i'r Cyngor llawn dderbyn yr Adroddiad Blynyddol.

2. **Cefndir a chyd-destun**
   **2.1** Dyma'r wythfed Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ers ei sefydlu yn 2012.
   **2.2** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n ofynnol dan y Mesur bod y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor llawn.
   **2.3** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu trosolwg o'r holl faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20 ac yn manylu ar unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd.
   **2.4** Yn ogystal â hyn, mae'r adroddiad yn amlinellu beth fydd cynnwys rhaglen waith y Pwyllgor yn ystod 2020/21 o ran y materion a ganolbwyntir arnynt fydd yn sail i waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2019/20 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **8 Medi, 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd- Adroddiad Blynyddol 2019/20** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2019/20** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn** | **Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)**<br>**Jjones@ynysmon.gov.uk** |

DRAFT

**1. Rhagarweiniad**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor llawn.

Dyma'r wythfed adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

**2. Datblygiad Proffesiynol Aelodau**

Mae cefnogi Aelodau Etholedig yn hollbwysig er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau o ran cefnogi a chynrychioli eu cymunedau yn llawn, gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor er budd gorau eu hetholwyr, i gynrychioli'r Cyngor yn effeithiol, i sicrhau llywodraethu mewnol a safonau moesol, fel y nodir yn y Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelod Etholedig.

Er mwyn datblygu ac ehangu ar sgiliau a gwybodaeth Aelodau, mae Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn bodoli sy'n amlinellu'r holl gyfleoedd hyfforddiant a datblygu sydd ar gael iddynt am y flwyddyn. Mae'r ddogfen yn cael ei haddasu yn rheolaidd er mwyn bodloni anghenion yr holl Aelodau ac yn ymateb i ofynion sy'n cael eu hamlygu yn Adolygiadau Datblygiad Personol y Cynghorwyr. Cyflwynir y Cynllun Datblygu yn chwarterol i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn i swyddogion penodol allu adnabod mewnbynnau datblygu addas neu benodol.

I'r un perwyl, cynhelir sesiynau briffio misol i Aelodau ar bynciau penodol, er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ar faterion strategol a thrawsnewid o fewn y Cyngor sy'n hanfodol iddynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u rôl.

**3. Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.
Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Y Cynllun ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd;
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Materion cysylltiedig ag Aelodau gan gynnwys- Siartr Cymru ar gyfer datblygiad a chefnogaeth Aelodau
- Ymgynghoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys trefniadau etholiadol;

Cynhaliwyd cyfanswm o 4 cyfarfod o'r Pwyllgor dros y deuddeg mis diwethaf.

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Pwnc** | **Statws Cyfredol** |
|---|---|---|
| **14 Mai 2019** | Ethol Is-Gadeirydd | Cynhaliwyd y cyfarfod er mwyn ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2019/20. |
| **25 Medi 2019** | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru- Arolwg Etholiadol 2019- Ynys Môn | Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a oedd yn ymdrin â'r materion canlynol:<br><br>i. Manylion o ran sefydlu panel trawsbleidiol yn cynnwys 8 o Aelodau i ddatblygu cynigion a gwneud argymhellion, gyda'r Panel yn cyfarfod pedair gwaith rhwng mis Gorffennaf a Medi 2019 i ddatblygu cynigion.<br>ii. Nodwyd bod gofyn i randdeiliaid gyflwyno eu hargymhellion cychwynnol i'r Comisiwn erbyn 10 Hydref 2019, ac y bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r argymhellion cyn hynny.<br>iii. Amlinellwyd y byddai'r Comisiwn, ar ôl derbyn yr argymhellion cychwynnol, yn datblygu a chyhoeddi ei gynigion drafft yn ystod Gwanwyn 2020, ac y byddai'r argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod Gaeaf 2020, yn dilyn cyfnod o ymgynghori.<br>iv. Bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu ar draws Cymru mewn pryd ar gyfer etholiadau lleol 2022.<br>v. Er i fethodoleg y Comisiwn argymell Awdurdod o 33 Aelod ar sail 1 Aelod i 1,549 o etholwyr, casglodd y Panel ei bod yn briodol cynyddu nifer yr Aelodau i 35 gyda 14 o adrannau etholiadol. Daethpwyd i'r casgliad hwn drwy ddilyn meini prawf y Panel, ac adolygu'r trefniadau presennol o ran nifer yr |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | Aelodau, y wardiau a'u ffiniau, yn ogystal â nifer yr Aelodau ym mhob ward.<br>vi. Derbyniodd y Cyngor Sir argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd ar 7 Hydref, 2019 fel ymateb cychwynnol y Cyngor.<br>vii. Nodwyd y bydd angen i'r Pwyllgor hwn ystyried cynigion drafft y Comisiwn yn ystod Gwanwyn 2020, a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir. |
| | Datblygu Aelodau | Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun datblygu a hyfforddiant i Aelodau gan gynnwys modiwlau e-ddysgu. O ran e-ddysgu, bu datblygiadau mewn perthynas â Llwyfan E-ddysgu'r GIG, fydd yn golygu bod y system yn haws i'w defnyddio a bydd yr hyfforddiant yn haws ei gwblhau ar ipads hefyd. Nodwyd bod y Gwasanaeth TGCh wedi llunio llawlyfr i Aelodau, sydd ar gael ar MonITor, ac y trefnwyd sesiynau galw i mewn i gynorthwyo Aelodau gydag unrhyw broblemau TGCh.<br><br>Pwysleisiwyd bod y Cynllun Datblygu yn ddogfen sy'n esblygu ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i haddasu i fodloni anghenion hyfforddi Aelodau, yn dilyn derbyn mewnbwn gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Arweinwyr Grŵp, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac asiantaethau allanol eraill.<br><br>Derbyniwyd y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau, a chytunwyd i rannu copi ohono gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd bob chwarter. Penderfynwyd hefyd i ofyn i Arweinwyr Grwpiau atgoffa Aelodau o'r angen i fynychu sesiynau hyfforddi gorfodol a sesiynau hyfforddi eraill.<br><br>Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r Pwyllgor ar 10 Rhagfyr, 2019. |
| | Materion yn ymwneud ag Aelodau | Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r materion canlynol:<br>• Nododd yr adroddiad bod 28 o Aelodau wedi cwblhau a chyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer 2018/19 ar wefan y Cyngor.<br>• Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi derbyn Siarter Cynorthwyo a Datblygu Aelodau Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyflwynwyd tystysgrif swyddogol i'r Cyngor. Cyflwynwyd y Siarter yn swyddogol i'r Cyngor ym mis Gorffennaf am gyfnod o dair blynedd. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor 2019/20 | Cyflwynwyd y rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor.<br><br>Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r materion ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor yn 2019/20 (amlinellir y rhain dan bwynt 3 uchod). |
| **10 Rhagfyr 2019** | Datblygu Aelodau | Roedd yr adroddiad yn darparu diweddariad ar y cynnydd o ran darparu'r cynllun hyfforddiant a chyfleoedd datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig ers cyflwyno'r adroddiad ar 25 Medi 2019. Nodwyd y bwriad o gwblhau Adolygiadau Datblygiad Personol erbyn canol mis Mawrth, 2020, er mwyn eu cynnwys wrth baratoi Cynllun Datblygu Aelodau 2020/21. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor. |
| | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol- Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2020/21 | Mae Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel ar gyfer 2020/21 wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad a oedd yn cau ar 10 Rhagfyr 2019. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y penderfyniadau drafft yn yr adroddiad, ac a oeddent yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2020. |
| **30 Ionawr, 2020** | Adolygiad o Ranbarthau Pleidleisio a Lleoliad Pleidleisio | Roedd yr adroddiad yn ymdrin â sawl elfen o ran Adolygiad o Ranbarthau Pleidleisio a Lleoliad Pleidleisio, gan gynnwys yr isod yn benodol:<br><br>• Nodwyd y cynhaliwyd adolygiad rhagarweiniol gan Swyddog Canlyniadau Gweithredol y dosbarthau pleidleisio, y mannau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio presennol yn ardal Ynys Môn ac mewn perthynas â'r etholaeth seneddol, gyda'r bwriad o brofi eu haddasrwydd, a nodi unrhyw ddewisiadau eraill posibl lle bernir eu bod yn addas.<br><br>• Wrth asesu'r trefniadau cyfredol, rhoddwyd ystyriaeth i leoliad, maint, argaeledd a hygyrchedd mannau a gorsafoedd pleidleisio. Ystyriwyd pa mor addas oedd rhai gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiadau a gynhaliwyd yn 2019.<br><br>• Cynhaliwyd yr adolygiad o 5 Mehefin 2019-20 Ionawr 2020, gyda chyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar argymhellion y Swyddog Canlyniadau Gweithredol.<br><br>• Gofynnwyd i'r Pwyllgor gadarnhau manylion fel y nodwyd yn yr Atodiad a oedd yn rhan o'r adroddiad, ac argymell i'r Cyngor Sir dderbyn hyn yn yr un modd. |

DRAFT

**<u>Edrych Ymlaen i 2020/21:</u>**

Bydd rhaglen waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol ar gyfer 2020/21:

- Y Cynllun ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Materion cysylltiedig ag Aelodau gan gynnwys- Siartr Cymru ar gyfer datblygiad a chefnogaeth Aelodau
- Ymgynghoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys trefniadau etholiadol.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20.
**Cyng Robert Llewelyn Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**(08.07.2020)**

DRAFT